VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

# Pecyn Cais a Chanllaw

# Ar gyfer Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus

## Dan Ddeddf Priffyrdd 1980

## Adrannau 26, 118 a 119

# Canllaw ar Weithdrefn Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus

Mae'r canllawiau hyn yn egluro'r weithdrefn ar gyfer gorchmynion Gwyro, Cau terfynol a Chreu. Gellir unrhyw berchennog, lesddeiliad neu berson sy'n defnyddio tir y mae Hawl Dramwy neu Hawl Dramwy sydd ar gynnig drosto ddefnyddio'r canllawiau.

## Wrth wneud cais am orchymyn llwybr cyhoeddus, mae'n bwysig ystyried y canlynol:

### Tir berchnogaeth

Y peth cyntaf y dylech ei ystyried cyn gwneud cais am orchymyn llwybr cyhoeddus yw ai chi, fel ymgeisydd, sydd berchen ar yr holl dir y bydd y llwybr yn mynd drosto. Os nad chi yw perchennog yr holl dir, bydd rhaid i chi geisio caniatâd ysgrifenedig gan berchnogion y tir cyn gallu bwrw ymlaen.Ni fydd modd i'r Cyngor Sir brosesu eich cais heb y caniatâd hwn.

### Profion Cyfreithiol

Yn unol â'r ddeddfwriaeth, mae'n rhaid ystyried rhai profion penodol ar gyfer gorchmynion llwybrau cyhoeddus. Mae profion gwahanol ar gyfer gorchmynion gwyro a gorchmynion cau terfynol, fel y nodir isod.

**a) Profion Cyfreithiol Gorchmynion Gwyro (Adran 119)**

Defnyddir Gorchmynion Gwyro gan amlaf er mwyn gwyro ffordd neu ran o ffordd ar drywydd arall. Gellir gwneud y Gorchmynion hyn er buddiant yr ymgeisydd (fel y nodir uchod) ac er buddiant y cyhoedd.

Cyn gwneud gorchymyn, mae'n rhaid i'r Awdurdod fod yn fodlon ei bod yn angenrheidiol gwyro'r llwybr y naill ai er buddiant y cyhoedd neu'r ymgeisydd.

Bydd yn rhaid i'r awdurdod hefyd fod yn fodlon ar yr amodau canlynol ar y Gorchymyn Gwyro:

- Nad yw'n newid unrhyw bwynt terfyn y llwybr os nad yw ar briffordd; neu
- Os yw'r llwybr yn terfynu ar briffordd, i fan arall ar yr un briffordd y symudir y pwynt terfyn, neu i briffordd gysylltiedig sydd yn llawn mor gyfleus ar gyfer y cyhoedd.
- Dylai'r Cyngor hefyd sicrhau nad oes Hawl Dramwy Gyhoeddus eisoes ar hyd y llwybr a ddengys yn y gorchymyn fel llwybr y gwyriad.

Wrth wneud Gorchymyn Gwyro, dylid ystyried hefyd:

i) Sut y bydd yn effeithio ar ddefnydd cyhoeddus o'r llwybr a llwybrau gerllaw yn gyffredinol;
ii) Sut y bydd yn effeithio ar y tir y mae'r llwybr presennol yn mynd drosto;
iii) Sut y bydd yn effeithio ar y tir y bydd yn mynd drosto;
iv) A yw llwybr y gwyriad yn llai cyfleus i'r cyhoedd;

v) A yw'r gorchymyn er buddiannau gorau'r sawl sydd wedi ei enwi arni;
vi) Yr effaith a gaiff y cynnig ar anghenion cadwraeth a bioamrywiaeth (os na wyddys hyn cyn yr ymgynghori, fe ymdrinnir ag ef trwy gynnwys Ecolegydd yr awdurdod a/neu Gyfoeth Naturiol Cymru yn y rownd ymgynghori cyn y gorchymyn).

**b) Profion Cyfreithiol ar gyfer Gorchmynion Cau (Adran 118)**
Defnyddir Gorchmynion Cau er mwyn cau Hawl Dramwy Gyhoeddus yn gyfan gwbl neu yn rhannol.

Mae’n rhaid yr ymddengys i'r awdurdod, cyn gwneud Gorchymyn, ei bod yn angenrheidiol cau'r llwybr neu ffordd ar y sail nad oes ei (h)angen ar gyfer defnydd cyhoeddus.Mae’r rhaid iddynt anwybyddu amgylchiadau dros dro sy’n atal neu’n gostwng defnydd cyhoeddus o’r llwybr.

Cyn cadarnhau gorchymyn, mae’n rhaid i’r awdurdod neu Lywodraeth Cymru fod yn fodlon ei bod yn angenrheidiol cadarnhau'r gorchymyn o ran y defnydd tebygol a wneid o’r llwybr a'r effaith y byddai cau'r llwybr yn ei gael ar y tir y mae'n arwain ato.Mae’n rhaid i’r awdurdod neu Lywodraeth Cymru anwybyddu amgylchiadau dros dro sy’n atal neu’n gostwng defnydd cyhoeddus o’r llwybr.

**c) Profion Cyfreithiol ar gyfer Gorchmynion Creu (Adran 26)**
Gall awdurdodau wneud Gorchmynion Creu llwybrau pan ymddengys iddynt fod angen llwybr neu ffordd ac y mae’n hwylus creu ffordd. Wrth wneud hynny, mae rhaid i awdurdodau ystyried i ba raddau y byddai hyn yn ychwanegu at:

- Gyfleustra neu fwynhad rhan helaeth o'r cyhoedd; neu
- Gyfleustra personau sy’n byw yn yr ardal.

Yn y ddau achos, dylid ystyried yr effaith a gâi creu'r Hawl Dramwy ar hawliau'r personau â buddiant yn y tir, ar yr amod yr ystyrir amodau'r Ddeddf o ran iawndal (Deddf Priffyrdd 1980, Adran 28). Dylai awdurdodau hefyd ystyried anghenion y canlynol:

- Amaethyddiaeth (yn cynnwys magu neu gadw ceffylau)
- Coedwigaeth
- Awydd i gadw blodau, anifeiliaid a nodweddion daearegol a ffisiograffigol.

## Gorchmynion Cyfochr

Gellir gwneud Gorchmynion Creu neu Wyro yr un pryd â Gorchmynion Cau er mwyn cynnig ffyrdd eraill yn lle’r rhai a gaeir.Pan mae Gorchmynion yn gysylltiedig â'i gilydd fel hyn, mae’n bosibl ystyried y ffyrdd newydd yn y Gorchymyn Creu neu Wyro wrth benderfynu cadarnhau'r Cau ai peidio.

## Datblygu

Os ydych yn gwneud cais am lwybr cyhoeddus er mwyn caniatáu datblygu ar drywydd y llwybr cerdded, mae rhaid trin hyn yn unol â Deddf Cynllunio Gwlad a

Thref 1990. Eithriad yw os yw'r datblygiad eisoes wedi ei gwblhau ac wedi ei adeiladu'n gyfreithiol dros lwybr, yna bydd yn rhaid i chi wneud cais am wyriad dan adran 119 Deddf Priffyrdd 1980.

## Gwaith Angenrheidiol ar Lwybrau yr Effeithir Arnynt

Os ydych yn credu eich bod am godi camfa neu giât neu unrhyw ddodrefnyn arall, nodwch hyn ar y map sy'n atodol at eich ffurflen gais oherwydd gallai eu codi heb gofnodi hynny yn y gorchymyn fod yn rhwystr.

Mae Mynediad i Bawb yn brif egwyddor yng Nghynllun Gwella Hawliau Tramwy Bro Morgannwg a chaniateir bylchau, giatiau a chamfeydd mewn gorchmynion. Awdurdodir strwythurau ar sail dewis yr un sy'n peri'r rhwystr lleiaf, felly y man cychwyn fyddai bwlch oni bai fod y tir yn cynnwys anifeiliaid megis defaid, ceffylau, moch neu wartheg, neu giatiau os oes angen monitro stoc. Ni fydd y Cyngor Sir yn caniatáu strwythurau megis camfeydd ar lwybr newydd oni bai nad yw'n bosibl gosod unrhyw beth arall ar y tir dan sylw. Gellir trafod mathau y dodrefn sy'n addas gyda Swyddog Hawliau Tramwy.

Baich yr ymgeisydd fydd talu 100% costau rhesymol pob pont droed neu farchogaeth newydd a'i gosod. Bydd y Cyngor Sir neu asiant a gymeradwyir ganddo yn cyflenwi strwythurau fel hyn ac yn eu codi. Os codir strwythur yn ôl manyleb uwch ar gais yr awdurdod, bydd y Cyngor Sir yn talu unrhyw gostau ychwanegol.

Os ydych yn gwneud cais am gau llwybr, sylwch hefyd os oes unrhyw strwythurau megis pontydd.Bydd y Cyngor Sir yn trefnu eu tynnu a'u defnyddio yn rhywle arall yn y rhwydwaith os yw hynny'n addas.

## Cynllun y Gwyriad

Wrth wneud cais am wyriad, bydd angen i'w ymgeisydd gyflwyno map yn dangos y cynnig wrth gyflwyno'r ffurflen gais. Dylai'r map fod ar raddfa o un ai 1:1250 neu 1:2500 ac mae'n rhaid iddo fod yn gywir. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw cynhyrchu map sy'n dangos y cais yn gywir oherwydd y gall unrhyw addasiad o'r hyn sydd yn y map arwain at gostau ychwanegol i'r ymgeisydd ac oedi i'r broses.

## Lled Llwybrau Newydd

Mae ar y Cyngor Sir angen i'r llwybr fod yn lled rhesymol er mwyn i ddau ddefnyddiwr allu mynd heibio ei gilydd ac er mwyn i beiriannau torri gwrych allu mynd ar ei hyd. Mewn achos llwybr cerdded newydd, bydd hyn o leiaf 2 fetr o led. Ac mewn achos llwybr march, bydd yn 3 metr.

## Gwyro llwybr ar draws cae

Pan mae'n bosibl, dylid llunio trywydd llwybr gwyriad fel nad oes angen aredig drosto na tharfu ar yr arwyneb.

Sylwch fod y Ddeddf Priffyrdd yn gwahardd aredig neu unrhyw fath o darfu arall ar lwybr cerdded neu lwybr march sy'n dilyn ymyl neu dalar cau neu dir caeedig. Ni ddylid aredig ar hyd Ffyrdd Didramwy Gyfyngedig a Ffyrdd Didramwy Agored i Holl Draffig o gwbl.

Mae'n bosibl y bydd angen i chi fynd i gytundeb i gynnal arwyneb unrhyw lwybr sy'n gwyro dros bentir cae yn ogystal â chydymffurfio â'ch cyfrifoldebau cyfreithiol i dorri gwrych a thynnu'r darnau er mwyn sicrhau bod y llwybr cyn lleted ag y dylai fod.

## Costau

Mae gan yr awdurdod rym i ofyn i ymgeisydd dalu costau'r gorchymyn a chost creu llwybr newydd, yn ogystal â thalu unrhyw iawndal a all godi.

Mae'r cyngor yn codi ffi ar gyfer y gwaith gweinyddol o drin cais yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Adfer Costau ar Gyfer Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus) 1993 (fel y'u diwygiwyd).Fellt, bydd yn rhaid i chi dalu'r **gwir gostau** sy'n gysylltiedig, yn cynnwys costau hysbysebu. Mae'r Cyngor yn cadw'r gallu i ddewis ildio hawl ar gostau neu ran o gostau, pan mae'n ystyried bod hynny'n addas er budd y cyhoedd.

Byddwch yn derbyn anfoneb ar dri cham gwahanol: (Bydd angen talu o fewn 30 diwrnod wedi dyddiad yr anfoneb):

Cam 1: Cyn cyhoeddi (cost na'i had-delir)

Cam 2: Cyhoeddi

Cam 3: Cadarnhau gorchymyn

Mae'r ffi a godir ym mhob achos yn dibynnu ar gymhlethdod yr achos ac mae'n uniongyrchol gysylltiedig ag amser prosesu'r cais. Mae amcan raddfa costau cais fel y nodir yn y Rhestr Gostau atodol.Mae prif daliadau costau ychwanegol wedi eu nodi yn y Rhestr Gostau.

## Cyfnod amser

Ar gyfartaledd, mae hyd y cyfnod amser ar gyfer prosesu cais hyd at y cam cadarnhau dros naw mis. Fodd bynnag, os cyflwynir y mater i Lywodraeth Cymru ac y mae ei Harolygydd yna'n galw ymholiad neu wrandawiad cyhoeddus, gall y cyfnod fod yn hirach.

**Sylwch y bydd y llwybr yn aros fel y mae hyd nes y cadarnheir Gorchymyn Llwybr Cyhoeddus, a bydd yn rhaid i'r llwybr fod yn agored i'w ddefnyddio.**

## Os oes gwrthwynebiad i'r gorchymyn

Oherwydd y broses ymgynghori gyntaf, dylai bod gwrthwynebiad i Orchmynion yn brin.

Mae'n rhaid cyflwyno gwrthwynebiad ffurfiol yn ysgrifenedig i'r Cyngor Sir o fewn cyfnod o 28 diwrnod wedi cyhoeddi bod gorchymyn wedi ei wneud. Os derbynnir gwrthwynebiad, bydd swyddog yn dechrau trafod â'r gwrthwynebydd. Os yw'r gwrthwynebiad yn parhau, bydd y Cyngor yn anfon y gorchymyn i Lywodraeth Cymru am benderfyniad wedi ymgynghoriad â'r ymgeisydd a'r gwrthwynebydd. Bydd y Llywodraeth yn penderfynu a oes angen ymholiad cyhoeddus ynteu a ellir galw ar sylwadau ysgrifenedig neu weithdrefnau gwrandawiad.

Bydd ymchwilydd annibynnol wedi ei benodi gan Lywodraeth Cymru yn rhoi ei f/barn er mwyn cadarnhau, peidio â chadarnhau neu addasu'r Gorchymyn wedi ystyried yr achos.

## Gweithdrefnau sy'n Gysylltiedig â Gorchymyn Llwybr Cyhoeddus dan y Ddeddf Briffyrdd

Mae'r weithdrefn ar gyfer trin gwyro neu gau llwybrau cerdded neu lwybrau march a gall gymryd amser.Dyma'r camau sylfaenol:

**1.** Trafodaethau anffurfiol gyda swyddogion Hawl Dramwy 'r cyngor er mwyn trafod dichonoldeb y cynnig, y ffurflen gais a'r rhestr gostau.
**2.** Derbyn eich cais terfynol, yn cynnwys tystiolaeth o berchnogaeth y tir a chaniatâd tir berchennog os oes angen hynny.
**3.** Llunio map ar gyfer ymgynghori ac amserlen gynnig y gorchymyn.
**4.** Ymgynghoriad cyn y gorchymyn gyda grwpiau defnyddwyr a chynghorau lleol.
**5.** Trafodaethau yn dilyn unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig yn y cam ymgynghori anffurfiol.
**6.** Os ystyrir bod angen hynny, bydd ymweliad safle.
**7.** Llunio map gorchymyn, amserlen, hysbysiad a gorchymyn cyfreithiol.
**8.** Y Cyngor yn ystyried adroddiad ar y cais a phenderfynu gwneud y gorchymyn ai peidio.
**9.** Paratoi a chyhoeddi'r gorchymyn ac yna bydd 28 diwrnod o hysbysu'r gorchymyn ar y safle ac yn y wasg.
**10.** Trafodaethau ar unrhyw wrthwynebiad ffurfiol i'r gorchymyn.
**11.** Os na lwyddir i ddatrys gwrthwynebiad, cyflwynir y gorchymyn i Lywodraeth Cymru a bydd hithau'n penodi arolygydd i ystyried y gwrthwynebiad a phenderfynu a ddylid cadarnhau'r gorchymyn ai peidio.Yn ôl yr amgylchiadau, mae'n bosibl y daw'r arolygydd i benderfyniad ar sail y cyfnewid gohebiaeth, neu mae'n bosibl yr âi'r achos i wrandawiad neu ymholiad cyhoeddus.
**12.** Os penderfynir y dylid cadarnhau'r gorchymyn, cyhoeddir hysbysiad o'r penderfynid yn y wasg ac yn y safle. Bryd hyn, bydd angen i chi sicrhau

bod y llwybr yn cyrraedd y safon ofynnol. (Sylwch y gall yr Arolygydd benderfynu peidio â chadarnhau'r gorchymyn.)

**13.** Bydd swyddogion y Cyngor yn ymweld â'r safle er mwyn sicrhau bod y llwybr newydd yn foddhaol.

## Sylwch, nid oes Unrhyw Sicrwydd

Ni all y Cyngor Sir sicrhau yr aiff y cais hyd at wneud gorchymyn na chwaith roi sicrwydd i chi y bydd pob cais yn llwyddiannus yn erbyn gwrthwynebiad.

*Mae'n rhaid i ymgeiswyr fod yn ymwybodol ei bod yn bosibl iddynt ddod i gostau heb i'r Gorchymyn lwyddo yn y pen draw.*

Bydd y Cyngor yn ymdrechu i ddatrys gwrthwynebiadau os yw'n bosibl a bydd modd i ymgeiswyr dynnu eu ceisiadau yn ôl cyn anfon Gorchmynion a wrthwynebir i'r y Llywodraeth am benderfyniad. Yn yr amgylchiadau hyn, y costau hyd at y pwynt hwn yn unig y bydd y Cyngor Sir yn eu hadfer.

**GWNAED POB YMDRECH I SICRHAU BOD YR WYBODAETH A RODDIR YN GYWIR, FODD BYNNAG, NID BWRIAD Y CANLLAW HWN YW RHOI DATGANIAD PENDANT O'R GYFRAITH AC FELLY NI DDERBYNIWN GYFRIFOLDEB DROS GAMGYMERIAD NEU DDIFFYG.**

## Gorchymyn Llwybr Cyhoeddus – Rhestr Gostau

| Cam 1 Cyn cyhoeddi | | |
|---|---|---|
| **Eitem** | **Manylion** | **Amcan gost** |
| 1. Derbyn cais | • Sicrhau y gwneir y cais dan y ddeddfwriaeth gywir<br>• Gwirio'r ffurflen gais a’r addewid i dalu’r costau<br>• Creu ffeil achos a'i mewnbynnu ar y system gyfrifiadurol<br>• Anfon llythyr yn cydnabod derbyn y cais | £45 |
| 2. Ymchwilio hanes a statws yr hawliau tramwy | • Chwilio am y llwybr ar y Map Diffiniol a datganiad<br>• Edrych yn y ffeil Hawliau Tramwy Cyhoeddus – oes gorchmynion blaenorol, materion a fydd yn effeithio ar y tebygolrwydd y bydd y cais yn llwyddiannus?<br>• Cadarnhau perchnogaeth tir, anfon cais am deitlau’r Gofrestrfa Tir os na dderbynnir hyn, neu os yw’r rhai a dderbynnir dros 3 mis oed. | £190 |
| 3. Ymweld â'r safle gyda'r ymgeisydd | • Trefnu cyfarfod yr ymgeisydd yn y safle<br>• Cyn yr ymweliad, paratoi map yn dangos y llwybrau newydd a'r hen rai<br>• Ymweliad safle – profi dichonoldeb y llwybr, sylwi a oes angen camfeydd/giatiau a.y.b.<br>• Anfon llythyr ar yr ymgeisydd yn cadarnhau unrhyw waith y cytunwyd arno yn ystod yr ymweliad safle | £150 |
| 4. Ymgynghori cyn y gorchymyn | • Addasu rhestr ymgynghori statudol er mwyn sicrhau ymgynghori â’r aelodau ward, Cynghorwyr Cymunedol, tir berchnogion cyfagos yn gywir<br>• Paratoi amserlen ymgynghori<br>• Paratoi map ymgynghori<br>• Paratoi llythyr ymgynghori a’i anfon at y bobl ar y rhestr ymgynghori | £130 |
| 5. Dadansoddi ymatebion ymgynghori cyn y gorchymyn | • Cydnabod derbyn unrhyw ymateb, cymharu’r ymatebion, mynd i’r afael ag ymholiadau a wnaed | £70 |
| 6. Asesu’r Goblygiadau Cyfreithiol | • Ymgynghori â Swyddogion Cyfreithiol | £30 |
| 7. Paratoi adroddiad pwyllgor / pwerau wedi eu dirprwyo | • Manylu ar gefndir y cais, y cynnig a phrofion cyfreithiol.<br>• Paratoi map ac amserlen Gorchymyn drafft. Addasu'r map cyn ymgynghori er mwyn creu map gorchymyn drafft<br>• Paratoi amserlen ddrafft | £110 |

| | | |
|---|---|---|
| | • Paratoi adroddiad pwyllgor / pwerau wedi eu dirprwyo<br>• Wedi penderfyniad y Pwyllgor / Cyfarwyddwr, rhoi gwybod i'r ymgeisydd am sefyllfa bresennol ei gais | |
| 8. Llunio'r Gorchymyn a threfni ei selio | • Gorchymyn Drafft<br>• Anfon y Gorchymyn, y map a'r amserlen i'r Adran Gyfreithiol i selio'r Gorchymyn | £60 |

***Anfonebu'r ymgeisydd yn y cam hwn***

## Gorchymyn Llwybr Cyhoeddus – Rhestr Gostau – parhad

| **Cam 2 Cyhoeddi'r Gorchymyn** | | |
|---|---|---|
| **Cam** | **Manylion** | **Amcan gost** |
| 9. Llythyrau at yr ymgynghoreion | • Anfon copi o'r Gorchymyn a'r dogfennau cysylltiedig gyda llythyr eglurhaol at bawb ar y rhestr ymgynghori statudol. | £85 |
| 10. Hysbysebu gwneud y Gorchymyn | • Llunio hysbysiad safle a hysbysiad y wasg<br>• Trefnu cyhoeddi'r hysbysiad yn y wasg<br>• Trefnu bod yr hysbysiad yn ymddangos ar wefan y Fro<br>• Ymweliad safle – gosod hysbysiadau safle | £1030 |
| 11. Ymweliad Safle | • Sicrhau bod yr hysbysiadau yn eu lle, hanner ffordd trwy'r ymgynghoriad | £85 |
| 12. Cau'r cyfnod ymgynghori | • Cymharu'r ymatebion i hysbysu gwneud y Gorchymyn, penderfynu a all yr Awdurdod gadarnhau'r Gorchymyn neu a ddylid atgyfeirio'r achos ar yr Arolygydd Cynllunio am benderfyniad. | £30 |

***Anfonebu'r ymgeisydd yn y cam hwn***

## Gorchymyn Llwybr Cyhoeddus – Rhestr Gostau – parhad

| **Cam 3: Cadarnhau Gorchymyn** | | |
|---|---|---|
| Cam | Manylion | **Amcan gost** |
| Cadarnhau'r Gorchymyn | • Anfon y Gorchymyn, y map a'r amserlen i'r Adran Gyfreithiol i selio'r Gorchymyn | £30 |
| 14. Llythyrau at yr ymgynghoreion | • Anfon copi o'r Gorchymyn a'r dogfennau cysylltiedig gyda llythyr eglurhaol at bawb ar y rhestr ymgynghori statudol. | £85 |
| Hysbysu cadarnhau'r Gorchymyn | • Llunio hysbysiad safle a hysbysiad y wasg<br>• Trefnu cyhoeddi'r hysbysiad yn y wasg<br>• Trefnu bod yr hysbysiad yn ymddangos ar wefan y Fro<br>• Ymweliad safle – gosod hysbysiadau safle | £1030 |
| 16. Cysylltu â'r ymgeisydd | • Gofyn i'r ymgeisydd sicrhau cwblhau'r holl waith ymarferol y cytunwyd arnynt yn flaenorol | £15 |
| 17. Ymweliad Safle | • Sicrhau bod yr hysbysiadau safle yn eu lle | £85 |
| 18. Ardystio'r gwaith a chwblhau'r gorchymyn | • Cysylltu â'r perchennog tir a gofyn am gyfarfod safle<br>• Ymweliad safle er mwyn sicrhau bod yr holl waith ymarferol wedi ei gwblhau<br>• Llunio Tystysgrif Cwblhau<br>• Anfon copi o'r Gorchymyn a'r Dystysgrif Cwblhau i Arolwg Ordnans<br>• Anfon copi o'r Dystysgrif Cwblhau at yr ymgeisydd a phob perchennog/preswylydd | £155 |

Os derbynnir gwrthwynebiad i'r Gorchymyn, anfonir yr achos ymlaen i Arolygiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru am benderfyniad. Ni chodir costau am y broses hon. Os yw'r Arolygiaeth Gynllunio yn cadarnhau'r Gorchymyn, bydd yr Awdurdod yn ailgydio yn y broses ym mhwynt 14 a bydd yn codi costau o'r pwynt hwnnw ymlaen.

## *Anfonebu'r ymgeisydd yn y cam hwn*

## Gorchymyn Llwybr Cyhoeddus – Rhestr Gostau – parhad

| **Costau Ychwanegol** | | |
|---|---|---|
| Eitem | Manylion | Cost |
| Llythyrau/galwadau ffôn | Llythyrau ychwanegol nas enwir uchod | £30.00 y llythyr |
| Ymweliadau Safle | Ychwanegol i'r rhai uchod, fel bo angen | Cost o £75 yn dibynnu ar y lleoliad |
| Ymweliad Safle gan Is-Bwyllgor Hawliau Tramwy | Ychwanegol i'r rhai uchod, fel bo angen | £200 |
| 1. Mae cost gyfartaledd gorchymyn heb ei wrthwynebu o ddeutu £3400<br><br>2. Mae cost gyfartaledd ar gyfer gorchymyn a wrthwynebir o ddeutu £3750 (yn cynnwys ymweliad safle gan Is-Bwyllgor) | | |

**Sylwch:**

Codir costau sy'n deillio os yw'r Awdurdod yn cwblhau gwaith ymarferol ar ran yr ymgeisydd ar yr ymgeisydd yn llawn, a bydd y rhain yn ychwanegol ac y tu allan i'r Rhestr Gostau.

**Hawliau Tramwy Cyhoeddus**
**Cyngor Bro Morgannwg**
**Swyddfa'r Dociau**
**Dociau'r Barri**
**Y Barri**
**CF63 4RT**

# GORCHMYNION LLWYBR CYHOEDDUS Y DDEDDF BRIFFYRDD

## Ffurflen Gytuno i Dalu Costau

Rwy'n cytuno i dalu'r costau sy'n deillio o brosesu'r Gorchymyn Llwybr Cyhoeddus ar gyfer:

Rhif(au) Hawl(iau) Tramwy Cyhoeddus

Plwyf

Rwyf yn deall mai'r gost fydd y wir gost i'r Cyngor o brosesu'r cais fel y manylir yn y Rhestr Gostau a'r Canllaw Gweithdrefn ar gyfer Gwneud Gorchmynion Llwybr Cyhoeddus. Rwyf yn y bydd gofyn i mi dalu'r costau hyn mewn tri rhandal.

Rwyf yn deall ac yn cytuno i dalu costau gwneud y gwaith angenrheidiol er mwyn cyflwyno'r llwybr at safon y Cyngor. Os cytunwyd y dylai'r awdurdod neu ei asiantau wneud y gwaith a chyflenwi unrhyw ddodrefn (yn cynnwys pontydd) ar ran y cais, rwyf yn deall y byddaf yn derbyn anfoneb am wir gostau'r dodrefn a'u gosod yn llawn (oni chytunid fel arall yn ysgrifenedig gyda Chyngor Sir Bro Morgannwg). Byddaf yn derbyn anfoneb ar wahân pan fydd unrhyw waith angenrheidiol wedi ei gwblhau.

Rwyf hefyd yn deall y bydd yn rhaid i mi dalu unrhyw iawndal a allai godi o ganlyniad i'r gwyro/creu/cau llwybr ar neu sy'n effeithio ar dir nad yw dan reolaeth yr ymgeisydd.

Enw (printiwch): ______________________

Llofnod: ______________________

Cyfeiriad:
(ar gyfer
anfonebu) ______________________

______________________

______________________

Dyddiad: ______________________

DEDDF PRIFFYRDD 1980 ADRAN 119

# CAIS AM ORCHYMYN I WYRO HAWL DRAMWY GYHOEDDUS YN RHANNOL NEU YN GYFAN GWBL AC YN BARHAOL

Dylech ateb y cwestiynau canlynol mor cyflawn â phosib a dychwelyd y ffurflen i Swyddfa Hawliau Tramwy Cyhoeddus, Cyngor Sir Bro Morgannwg, Swyddfa'r Dociau, Dociau'r Barri, Y Barri, CF63 4RT.
Hefyd, bydd yn rhaid i chi anfon y canlynol:

1. Dau gopi o fap ar raddfa nid llai na 1:2500, yn dangos yr Hawl Dramwy Gyhoeddus dan sylw a chyda thrywydd y gwyriad wedi ei farcio'n glir, yn ogystal â manylion perchnogaeth.
2. Unrhyw ddatganiad cytuno i'r cynnig gan berchnogion tir/perchnogion/preswylwyr perthnasol.
3. "Ffurflen Gytuno i Dalu Costau" wedi ei harwyddo.

## Adran A: CYFFREDINOL

Enw a chyfeiriad yr ymgeisydd

a) Enw
b) Cyfeiriad

c) Rhif Ffôn Cyswllt:

Enw a chyfeiriad yr asiant (cwblhewch os yw hyn yn berthnasol yn unig)

a) Enw
Cyfeiriad

c) Rhif ffôn　　d) Swydd

Enw a chyfeiriad perchennog neu berchnogion y tir(oedd) y naill ochr i'r Hawl Dramwy Gyhoeddus rydych am ei gwyro

a) Enw
b) Cyfeiriad

Os nad ydych chi, yr ymgeisydd, yn berchen ar y tir y bydd rhan o'r llwybr newydd, neu'r llwybr newydd cyfan, yn mynd drosto, ydych wedi derbyn caniatâd ysgrifenedig gan y perchennog/perchnogion tir perthnasol YDW / NAD YDW (os felly, atodwch e/nhw)

a) Enw
b) Cyfeiriad

Ydych chi wedi cael caniatâd ysgrifenedig unrhyw Lesddeiliad, Tenant neu Breswylydd? YDW / NAC YDW (Os felly, atodwch y datganiad caniatáu)
Enw'r Lesddeiliad, Preswylydd neu Denant:
Cyfeiriad:

## ADRAN B: HAWL DRAMWY GYHOEDDUS I'W GWYRO

Enw'r Plwyf (neu'r Plwyfi) y mae'r llwybr ynddo:

Rhif(au)'r Hawl Dramwy fel y nodir yn y Map Diffiniol (os ydych yn gwybod beth ydyw).
...................................................................................................................................
o fan Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans (os nad oes ond un llwybr dan sylw).........................
hyd at fan Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans............................................................................

Disgrifiad cyffredinol o'r llwybr(au)

Statws: Effeithir ar lwybr(au) cerdded / llwybr(au) march (dilëwch yr un amherthnasol)

Rhowch enw papur(au) lleol yr ardal

## ADRAN C: RHESWM DROS Y GWYRO

Mae Adran 119 Deddf Priffyrdd 1980, fel y'i diwygiwyd gan Atodiad 16 para. 5 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, yn caniatáu gwyro llwybrau cerdded a llwybrau march cyhoeddus ar y sail ei bod hi'n gyfleus gwneud hynny er budd (i) y perchennog, lesddeiliad neu breswylydd a/neu (ii) y cyhoedd.
Nodwch p'un ai budd (i) ynteu (neu a) (ii) sydd dan sylw wrth wneud y cais hwn, a rhowch resymau penodol i egluro pam:

Pa effaith a gaiff y gwyriad ar gyfleustra a mwynhad y cyhoedd o'r llwybr?

## ADRAN D: DATGANIAD

**(Darllenwch yn ofalus, addaswch fel sy’n addas ac yna arwyddwch)**

1. (Dilëwch y datganiad hwn os nad yw’n berthnasol) Rwyf/Rydym yn berchen ar y tir â ffin goch ar y map atodol yr wyf/ydym wedi ei arwyddo a nodi’r dyddiad.

2. Rwyf/Rydym wedi darllen a deall y nodiadau canllaw sydd wedi eu hatodi at y cais hwn. Rwyf/Rydym yn cytuno i gydymffurfio â'r amodau canlynol ynghylch y cais hwn:

   a. Mae’n rhaid creu’r llwybr arall hyd at safon foddhaol i Gyngor Sir Bro Morgannwg, sef yr Awdurdod Priffyrdd.

   b. Mae’n rhaid cytuno ar safle unrhyw bont, camfa neu ffens newydd gyda’r Cyngor Sir cyn eu codi a bydd yn rhaid eu cynnal ar gost i’r ymgeisydd yn y dyfodol (oni chytunid fel arall yn ysgrifenedig gyda'r Cyngor Sir).

   Mae’n rhaid gwneud unrhyw waith draeniau ar gost i’r ymgeisydd a’u hadeiladu yn ôl manyleb y Cyngor Sir ac at safon y mae'r Cyngor yn fodlon arni.

   Bydd arwydd at y llwybr(au) arall (eraill) a bydd y ffordd ato wedi ei nodi hyd boddhad y Cyngor Sir.

3. Os yw’r Cyngor yn cytuno gwneud gorchymyn i wyro’r llwybr(au). Byddaf/Byddwn yn gwneud pa bynnag waith y mae’r Cyngor yn nodi y mae ei angen ar lwybr y gwyriad er mwyn dod â’r llwybr i gyflwr addas er defnydd cyhoeddus pan y gellir cadarnhau’r gorchymyn gwyro.

4. Rwyf/Rydym yn deall nad awdurdodir gwyro Hawl Dramwy oni wneid a chadarnhaid Gorchymyn ac y cyhoeddir hysbysiad a chadarnhad ei wneud.

5. Rwyf/Rydym yn datgan na rwystrir yr Hawl Dramwy mewn unrhyw ffordd cyn y daw’r Gorchymyn yn weithredol oni cheid a deddfid darpariaeth gyfreithiol (megis cau dros dro).

6. Rwyf/Rydym yn addo sicrhau y bydd unrhyw lwybr neu ffordd newydd yn barod ei (d)defnyddio cyn y daw’r Gorchymyn yn weithredol.

7. Gall y Gorchymyn, pan fydd wedi ei wneud, nodi’r cyfnod amser y mae ei angen er mwyn gweithredu’r gwyro *(erbyn pa ddyddiad y byddwch yn rhoi’r llwybr(au) newydd ar gael?)*
   Y cyfnod amser y mae ei angen yw          wythnos

8. Rwyf/Rydym yn datgan, hyd eithaf fy/ein gwybodaeth a’m/a’n cred, bod y manylion a gyflwynir yn wir a chywir, ac rwyf/rydym trwy hyn yn gwneud cais am gwyro'r llwybr(au) yr wyf/ydym wedi eu manylu uchod.

Llofnod: Dyddiad:

DEDDF PRIFFYRDD 1980 ADRAN 118

# CAIS AM ORCHYMYN I WYRO HAWL DRAMWY GYHOEDDUS YN RHANNOL NEU YN GYFAN GWBL AC YN BARHAOL

Dylech ateb y cwestiynau hyn mor drylwyr â phosib a dychwelyd y ffurflen at:
Swyddog Hawliau Tramwy Cyhoeddus, Cyngor Sir Bro Morgannwg, Swyddfa'r Dociau, Dociau'r Barri, Y Barri, CF63 4RT.
Hefyd, bydd yn rhaid i chi anfon y canlynol:

1. Dau gopi o fap yn dangos yr Hawl Dramwy Gyhoeddus dan sylw gyda'r man cau wedi ei nodi yn amlwg.
2. Dylech hefyd gynnwys manylion y berchnogaeth ar un o'r mapiau. Unrhyw ddatganiad cytuno i'r cynnig gan berchnogion tir/perchnogion/preswylwyr perthnasol
3. "Ffurflen Gytuno i Dalu Costau" wedi ei harwyddo.

## ADRAN A: CYFFREDINOL

Enw a chyfeiriad yr ymgeisydd
Enw
b) Cyfeiriad

c) Rhif ffôn/ffôn symudol

Enw a chyfeiriad yr asiant (cwblhewch os yw hyn yn berthnasol yn unig)
a) Enw
b) Cyfeiriad

c) Rhif ffôn/ffôn symudol d) Swydd

Ai chi yw unig berchennog hyd cyfan y llwybr a gaeir? IE / NAGE

Os nad chi yw'r perchennog, ydych chi wedi cael caniatâd ysgrifenedig y tir berchennog/perchnogion? YDW / NAC YDW <u>Os ydych, atodwch y datganiad caniatáu</u>
Rhowch enw a chyfeiriad berchennog/perchnogion y tir y mae'r Hawl Dramwy Gyhoeddus a fydd yn cau yn mynd drosto.
a) Enw
b) Cyfeiriad

Ydych chi wedi cael caniatâd ysgrifenedig unrhyw Lesddeiliad, Tenant neu Breswylydd ar gyfer y cynnig cau? YDW / NAC YDW <u>Os ydych, atodwch y datganiad caniatáu</u>.
a) Enw'r Tenant, Lesddeiliad neu Breswylydd
b) Cyfeiriad

Enw a chyfeiriad perchennog neu berchnogion y tir(oedd) y naill ochr i'r Hawl Dramwy Gyhoeddus rydych am ei chau

a) Enw
b) Cyfeiriad

## ADRAN B: HAWL DRAMWY GYHOEDDUS I'W CHAU

Enw'r Plwyf neu'r Plwyfi y mae'r llwybr ynddo/ynddynt:

Rhif(au)'r Hawl Dramwy fel y nodir yn y Map Diffiniol (os ydych yn gwybod beth ydyw)

*(Os nad oes ond un llwybr dan sylw)* O fan Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans............................
hyd at fan Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans...................……………………………….

Disgrifiad cyffredinol o'r llwybr(au)

Statws: Effeithir ar lwybr(au) cerdded / llwybr(au) march *(dilëwch yr un amherthnasol)*

Rhowch enw papur(au) lleol yr ardal.

## ADRAN C: HYD HAWL DRAMWY NEWYDD I'W PENNU

A bennir llwybr newydd yn lle'r llwybr(au) a fydd yn cau? PENNIR / NA PHENNIR

Os nad yw'r ymgeisydd yn berchen neu'n rheoli'r tir a bennir yn llwybr newydd, a ydy caniatâd y perchennog/perchnogion wedi ei roi? YDY / NAC YDY

a) Enw
b) Cyfeiriad

## ADRAN D: RHESWM

Mae Adran 118 Deddf Priffyrdd 1980 yn caniatáu cau llwybrau cerdded a llwybrau march os gellir dangos nad oes angen y llwybr er defnydd cyhoeddus.
Nodwch y rheswm dros ofyn am Gau'r llwybr:

Sut y mae'n debygol y defnyddir y llwybr a pha effaith a gaiff ei gau ar y tir y mae'n arwain ato?

## ADRAN E: DATGANIAD

**Rwyf/Rydym yn berchen ar y tir â ffin goch ar y map atodol yr ydw/ydym wedi ei arwyddo a nodi'r dyddiad. Rwyf/rydym wedi darllen a deall y nodiadau canllaw atodol ac rwyf/rydym yn cytuno i gydymffurfio â'r amodau canlynol mewn perthynas â'r cais hwn:**

1 Os yw llwybr yn cau ar yr un pryd â chreu llwybr arall:

a. Bydd yn rhaid i unrhyw lwybr sydd wedi ei bennu fod cymaint â hyd y llwybr y mae'n ei ddisodli.

b. Mae'n rhaid creu'r llwybr arall hyd at safon foddhaol i Gyngor Sir Bro Morgannwg, sef yr Awdurdod Priffyrdd.

c. Bydd rhaid cytuno ar fan a math unrhyw giât, ffens neu ddodrefn llwybr arall angenrheidiol gyda'r Cyngor Sir cyn ei godi.

d. Mae'n rhaid gwneud unrhyw waith draeniau ar gost i'r ymgeisydd a'u hadeiladu yn ôl manyleb y Cyngor Sir ac at safon y mae'r Cyngor yn fodlon arni.

e. Bydd arwydd at y llwybr arall a bydd y ffordd yno wedi ei nodi hyd boddhad y Cyngor Sir

2. Rwyf/Rydym yn deall nad awdurdodir cau Hawl Dramwy Gyhoeddus oni wneid a chadarnhaid Gorchymyn a than y cyhoeddir hysbysiad a chadarnhad.

3. Rwyf/rydym yn datgan nad oes unrhyw rwystr i'r Hawl Dramwy Gyhoeddus a'i bod yn gwbl agored i'r cyhoedd, ac rwyf/rydym yn addo na fydd wedi ei rwystro mewn unrhyw ffordd tan y daw'r Gorchymyn yn weithredol.

4. Rwyf/rydym yn ymwybodol os gwneir a chadarnheir Gorchymyn, bydd y Cyngor Sir yn gwneud trefniadau i dynnu unrhyw bont droed neu farchogaeth ar hyd y llwybr sydd wedi cau.

5. Rwyf i/Rydym ni'n datgan hyd eithaf fy/ein gwybodaeth a'm/a'n cred, fod yr atebion uchod yn wir.

Llofnod: Dyddiad:

DEDDF PRIFFYRDD 1980 ADRAN 26

# CAIS AM ORCHYMYN I GREU HAWL DRAMWY GYHOEDDUS

Dylech ateb y cwestiynau hyn mor drylwyr â phosib a dychwelyd y ffurflen i:
Swyddog Hawliau Tramwy Cyhoeddus, Cyngor Sir Bro Morgannwg, Swyddfa’r Dociau, Dociau’r Barri, Y Barri, CF63 4RT.
Hefyd, bydd yn rhaid i chi anfon y canlynol:

Dau gopi o fap yn dangos yr Hawl Dramwy Gyhoeddus a gynigir. Dylech hefyd gynnwys fanylion y berchnogaeth ar un o’r mapiau.
2. Unrhyw ddatganiad cytuno i’r cynnig gan berchnogion tir/perchnogion/preswylwyr perthnasol
3. “Ffurflen Gytuno i Dalu Costau” wedi ei harwyddo.

## ADRAN A: CYFFREDINOL

Enw a chyfeiriad yr ymgeisydd
a) Enw
b) Cyfeiriad

c) Rhif ffôn/ffôn symudol

Enw a chyfeiriad yr asiant (cwblhewch os yw hyn yn berthnasol yn unig)
Enw
Cyfeiriad

c) Rhif ffôn/ffôn symudol d) Swydd

Ai chi yw unig berchennog hyd cyfan y llwybr a grëir? IE / NAGE

Os nad chi yw’r perchennog, ydych chi wedi cael caniatâd ysgrifenedig y tir berchennog/perchnogion? YDW / NAC YDW <u>Os ydych, atodwch y datganiad caniatáu</u>
Rhowch enw a chyfeiriad berchennog/perchnogion y tir y mae’r Hawl Dramwy Gyhoeddus a fydd yn cau yn mynd drosto.
c) Enw
d) Cyfeiriad

Ydych chi wedi cael caniatâd ysgrifenedig unrhyw Lesddeiliad, Tenant neu Breswylydd ar gyfer y cynnig creu? YDW / NAC YDW <u>Os ydych, atodwch y datganiad caniatáu</u>
c) Enw’r Tenant, Lesddeiliad neu Breswylydd
d) Cyfeiriad

Enw a chyfeiriad perchennog neu berchnogion y tir(oedd) y naill ochr i'r Hawl Dramwy Gyhoeddus a gynigir.

c) Enw

d) Cyfeiriad

## ADRAN B: HAWL DRAMWY GYHOEDDUS I'W CHREU

Enw'r Plwyf neu'r Plwyfi y mae'r llwybr ynddo/ynddynt:

Disgrifiad cyffredinol o'r llwybr

*(Os nad oes ond un llwybr dan sylw)* O fan Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans.....................
hyd at fan Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans……………………………….

Statws a gynigir ar gyfer y llwybr: Llwybr cerdded / llwybr march *(dilëwch yr un amherthnasol)*

Rhowch enw papur(au) lleol yr ardal.

## ADRAN C: DATGANIAD

**Rwyf/Rydym yn berchen ar y tir â ffin goch ar y map atodol yr ydw/ydym wedi ei arwyddo a nodi'r dyddiad. Rwyf/rydym wedi darllen a deall y nodiadau canllaw atodol ac rwyf/rydym yn cytuno i gydymffurfio â'r amodau canlynol mewn perthynas â'r cais hwn:**

1 Os yw llwybr yn Cau ar yr un pryd â chreu llwybr arall:

a. Bydd yn rhaid i unrhyw lwybr sydd wedi ei bennu fod cymaint â hyd y llwybr y mae'n ei ddisodli.

b. Mae'n rhaid creu'r llwybr arall hyd at safon foddhaol i Gyngor Sir Bro Morgannwg, sef yr Awdurdod Priffyrdd.

Bydd yn rhaid cytuno ar fan a math unrhyw giât, ffens neu ddodrefn llwybr arall angenrheidiol gyda'r Cyngor Sir cyn ei godi.

d. Mae'n rhaid gwneud unrhyw waith draeniau ar gost i'r ymgeisydd a'u hadeiladu yn ôl manyleb y Cyngor Sir ac at safon y mae'r Cyngor yn fodlon arni.

e. Bydd arwydd at y llwybr arall a bydd y ffordd yno wedi ei nodi hyd boddhad y Cyngor Sir.

2. Rwyf i/Rydym ni'n datgan hyd eithaf fy/ein gwybodaeth a'm/a'n cred, fod yr atebion uchod yn wir.

Llofnod: Dyddiad: